

P-05-952: Dylid mynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg

Y Pwyllgor Deisebau | 28 Ebrill 2020
Petitions Committee | 28 April 2020

Cyfeirnod: RS20/12391-1

Rhif y ddeiseb: P-05-952

Teitl y ddeiseb: Dylid mynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg

Testun y ddeiseb: Mae gan Gymru lawer o enwau lleoedd sydd wedi'u Seisnigeiddio'n ddiangen, ac sydd yn aml wedi'u disodli gan ffurfiau Seisnigedig am ddim rheswm da. Nid yn unig y mae hyn yn amharchus i'r Cymry a'r iaith Gymraeg, ond mae'r Gymraeg, yn ôl y gyfraith, i fod ar sail gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru.

Mae defnyddio enwau llefydd fel Trevor (o'r gair Cymraeg Trefor) ger Wrecsam nid yn unig yn tanseilio, ond yn cuddio etymolegau enwau o'r fath! Mae hyn yn sicr yn annerbyniol.

Rwyf i, a'r rhai sydd wedi llofnodi isod, yn deisebu Cynulliad Cymru i weithredu ac i newid y ffurfiau Seisnigaid hyn o enwau Cymraeg, drwy Gymru gyfan, ac i adfer eu sillafiadau Cymraeg gwreiddiol. Nid yw'r ddeiseb yn mynd mor bell â gofyn am ddiddymu enwau Saesneg lle mae enw Cymraeg yn bodoli hefyd (Cardiff nesaf at Gaerdydd, ac ati).



1. Cyd-destun

Mae enwau pentrefi, trefi a dinasoedd Cymru wedi datblygu dros gyfnod o ddwy fileniwm. Tra bod **enwau'r rhan fwyaf o leoedd yng Nghymru yn Gymraeg**, mae enwau llawer yn tarddu o'r Saesneg, Ffrangeg, Lladin, Gwyddeleg, Llychlyneg a Brythoneg (a esblygodd i'r iaith Gymraeg rydyn ni'n ei siarad heddiw).

Mae'r enghreifftiau o **leoedd cyfarwydd sydd ag enwau Cymraeg yn unig** yn cynnwys Aberystwyth, Bangor, Tonypany, Penarth a Phontypridd, ymhlith eraill. Fodd bynnag, mae sawl enghraifft o ddinasoedd, trefi a phentrefi yng Nghymru sydd ag enw Cymraeg ac enw Saesneg.

Yn achos rhai o'r lleoedd hynny sydd ag enw Cymraeg ac enw Saesneg, mae **sillafiad ac ynganiad yr enwau'n debyg** yn y ddwy iaith. Lleoedd fel:

- Caerffili – *Caerphilly*;
- Caerdydd – *Cardiff*;
- Merthyr Tudful – *Merthyr Tydfil*;
- Treorci – *Treorchy*; a
- Rhuthun – *Ruthin*.

Mewn nifer o'r lleoedd hyn, mae'n debygol iawn fod yr enwau wedi'u Seisnigeiddio dros amser oherwydd cyfres o newidiadau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn wir ym mhob achos. Mae yna enghreifftiau o enwau Saesneg fel *Flint* (Y Fflint), *Wrexham* (Wrecsam) a *Caldicot* (Cil-y-coed) sydd wedi'u mabwysiadu i'r Gymraeg yn hytrach nag fel arall. Yn yr un modd, yr enw gwreiddiol ar Fiwmares oedd yr enw Ffrangeg Normanaidd – *Beaumaris*.

Mae yna leoedd eraill yng Nghymru sydd â dau enw gwahanol nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddynt. Er enghraifft:

- *Newport* – Casnewydd (ystyr y Gymraeg yw castell newydd);
- *Swansea* (sy'n deillio o'r Llychlyneg ac yn golygu 'ynys Svein') – Abertawe (ystyr y Gymraeg yw aber afon Tawe);
- *Brecon* (sy'n deillio o hen deyrnas Gymreig Brycheiniog) – Aberhonddu (daw'r enw Cymraeg o'r afon Honddu)
- *Anglesey* (sy'n deillio eto o'r iaith Llychlyneg, *Ongul*) – cofnodwyd yr enw Cymraeg Môn yn gyntaf fel yr enw Lladin *Mona*.

Yn ei erthygl, [Enw da yw'r trysor gorau](#), ar Wales.com (gwefan Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru), mae Dr. Dylan Foster Evans, arbenigwr ar enwau lleoedd Cymraeg, yn ysgrifennu am esblygiad llawer o enwau lleoedd Cymru, a sut mae rhai wedi'u Seisnigeiddio:

Mewn mannau eraill, cafodd enwau Cymraeg eu newid trwy gael eu benthg i'r Saesneg. Er enghraifft, mae'r enw *Dinbych* ('y gaer fach') yn cynnwys y sain *ch* a ddiflannodd o'r iaith Saesneg rai canrifoedd yn ôl. Felly mae'r ddau le sydd â'r enw *Dinbych* yn Gymraeg wedi rhoi'r ffurfiau Saesneg *Tenby* yn Sir Benfro a *Denbigh* yn Sir Ddinbych (sy'n odli â'i gilydd, er gwaethaf y sillafu gwahanol). Ac er mwyn osgoi dryswch yn y Gymraeg, mae *Tenby*, sy'n dref ar lan y môr, yn cael ei galw'n *Dinbych-y-pysgod*.

Wrth gwrs, cafwyd enghreifftiau dros y blynyddoedd o roi'r gorau'n raddol i dderbyn neu ddefnyddio rhai enwau lleoedd Cymraeg a oedd wedi'u Seisnigeiddio, gan gynnwys *Caernarvon* (Caernarfon), *Conway* (Conwy) a *Llanelly* (Llanelli).

Mae yna hefyd fannau lle mae anghytuno parhaus ynghylch a ddylid defnyddio'r sillafiad Cymraeg yn gyfan gwbl ai peidio, fel yn [Varteg \(Farteg\)](#) sydd wedi cael rhywfaint o sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar.

2. Y Panel Safoni Enwau Lleoedd

Mae [Comisiynydd y Gymraeg](#), sef corff annibynnol a sefydlwyd gan [Fesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#), yn gyfrifol am roi cyngor ar **ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg** i unigolion a sefydliadau. Mae rhestr o ffurfiau safonol yr enwau Cymraeg ar bentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru bellach [ar gael fel adnodd ar-lein](#) at ddefnydd pawb. Mae'n cael ei diweddarau'n barhaus.

Sefydlodd y Comisiynydd [panel o arbenigwyr](#) i weithio ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg ac i wneud argymhellion yn hyn o beth. Yn ôl gwefan y Comisiynydd, mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd 'yn ystyried **ystyr, hanes a tharddiad yr enwau lleoedd** ynghyd â'r **defnydd cyfredol** ohonynt' wrth lunio ei argymhellion. Mae'r panel hefyd yn dilyn [Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru](#) (PDF 243KB). Yn Adran 9 - *Ffurfiau Deuol*, nodir y cyngor a ganlyn ar gyfer y panel:

Dylid anelu at arfer **un ffurf yn unig** pan nad oes ond **llythyren neu ddwy o wahaniaeth** rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', **gan dueddu at y ffurf Gymraeg**. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd. Eithr dylid cydnabod amrywiadau sefydlog (Caeriw/Carew, Biwmares/Beaumaris, Y Fflint/Flint, Wrecsam/Wrexham).

Cafodd y **Rhestr** ei lansio ar 20 Mehefin 2018, ac mae'n bosibl chwilio drwy'r 3,475 o enwau lleoedd sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. O ran Trefor/*Trevor*, sef y pentref a nodwyd yn y ddeiseb ei hun, **nid yw wedi ei gynnwys ar hyn o bryd** ar y rhestr hon.

Mae'r Comisiynydd yn nodi ar y wefan, os na fydd enw lle yng Nghymru wedi'i gynnwys ar y *Rhestr* gyhoeddedig, dylai unigolion lenwi **ffurflen ymholiad** fer gan nodi enw, cyfeirnod grid ac ardal awdurdod lleol y lle dan sylw.

3. Camau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru

Cyflwynwyd **deiseb yn galw ar y Cynulliad i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru** yn 2018. Dyma'r cam penodol yr oedd y deisebydd yn galw amdano:

Dylid diogelu hen enwau Cymraeg ar leoedd ac adeiladau o dan y gyfraith, a dylai fod yn orfodol i ddatblygiadau newydd gael enwau Cymraeg er mwyn diogelu ein diwylliant a'n hiaith unigryw.

Wrth ymateb i'r deiseb, **amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweithgarwch yn y maes hwn** (PDF 198KB). Ar ôl pasio **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**, nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol. Dywedodd:

Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y rhestr pan fydd eu swyddogaethau'n cynnwys enwi neu ailenwi lleoedd. Mae hyn yn cynwys enwi neu ailenwi strydoedd, eiddo a llefydd eraill, naill ai'n uniongyrchol neu drwy barti arall. Y bwriad yw y bydd y broses o gynnal y rhestr a'r canllawiau statudol gyda'i gilydd yn arwain at ostwng nifer y newidiadau ffurfiol i enwau eiddo hanesyddol.

Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru:

...nid yw'r mesurau hyn yn mor bell â diogelu enwau lleoedd hanesyddol yn ffurfiol. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i ddiogelu enwau lleoedd

hanesyddol yn statudol wrth fynd ati i ddatblygu Deddf 2016, pan gyflwynwyd nifer o sylwadau tebyg i'r ddeiseb bresennol. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion arwyddocaol, gan gynnwys gorfodi, beichiau ychwanegol posibl ar awdurdodau lleol a hawliau dynol, yn milwrio yn erbyn hynny.

Ym mis Ionawr 2017, enillodd Dai Lloyd AC y balot i gynnig Bil Aelod: [Datblygu y Bil Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru](#). Darparodd Dai Lloyd AC y [Memorandwm Esboniadol \(PDF 195KB\)](#) a ganlyn cyn y [ddadl yn y Cyfarfod Llawn](#), a gynhaliwyd ar 15 Mawrth.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil, ac ni chafodd ganiatâd i fwrw ymlaen.

Fel rhan o'i ymchwiliad yn 2017 i'r [Amgylchedd Hanesyddol](#), bu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn trafod y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Nododd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ati i adolygu'r mater a bod yn barod i gyflwyno mesur diogelu arall ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol os na fydd y rhestr bresennol yn effeithiol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.